Data haf 2017 ar adolygiadau o waith marcio a chymedroli TGAU, TAG Safon UG a TAG Safon Uwch

Cyfran y graddau tystysgrifau a gafodd eu herio a'u newid

Yng Nghymru, mae cyfran yr holl raddau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gafodd dystysgrif ac a gafodd eu herio, a chyfran y graddau a newidiodd o ganlyniad i hynny, yn debyg iawn i flynyddoedd blaenorol.

- Yn 2017, cafodd 2.5 y cant o'r holl raddau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gafodd dystysgrif eu herio, a newidiwyd 0.5 y cant ohonynt (gweler Tablau 1 a 2 Ofqual).
- Yn 2016, cafodd 2.4 y cant o'r holl raddau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gafodd dystysgrif eu herio, a newidiwyd 0.4 y cant ohonynt (gweler Tablau 1 a 2 Ofqual).

Ceisiadau am adolygiadau

Eleni, cafwyd 12,930 o geisiadau am adolygiadau marcio ar gyfer asesiadau TGAU yng Nghymru, o'u cymharu ag 8,625 y llynedd, cynnydd o 49.9 y cant. Un esboniad am y cynnydd hwn yw'r cynnydd o 12.3 y cant mewn cofrestriadau ar gyfer cymwysterau TGAU yr haf hwn o'u cymharu â 2016. Roedd y cynnydd hwn mewn cofrestriadau wedi'i achosi raddau helaeth gan y broses o ddisodli un TGAU Mathemateg â dau TGAU newydd a chynnydd yn nifer y myfyrwyr Blwyddyn 10 a wnaeth sefyll eu harholiadau'n gynnar. Hefyd, gall cyflwyno cymwysterau newydd fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhai canolfannau ynghylch p'un a ddylid gwneud cais am adolygiad o waith marcio ai peidio.

Ar gyfer asesiadau Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru, gwnaed 3,020 o geisiadau am adolygiadau eleni o'u cymharu â 3,605 y llynedd, gostyngiad o 16.2 y cant. Un esboniad am y gostyngiad hwn yw'r gostyngiad o 6.2 y cant mewn cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon UG a Safon Uwch yr haf hwn o'u cymharu â 2016.

Y graddau a gafodd eu herio fwyaf

Y graddau TGAU a gafodd eu herio fwyaf yng Nghymru oedd gradd D (59.1 y cant o adolygiadau) a gradd B (15.1 y cant o adolygiadau) (gweler Tabl 9 Ofqual).

Ar gyfer Safon UG a Safon Uwch, y graddau a gafodd eu herio fwyaf yng Nghymru oedd gradd B (32.3 y cant o adolygiadau) a gradd C (27.2 y cant o adolygiadau) (gweler Tabl 9 Ofqual).

Newidiadau i farciau a graddau

Yn gyffredinol, nid arweiniodd 53.3 y cant o adolygiadau y gofynnwyd amdanynt at newid mewn marc (gweler Tabl 10 Ofqual). Mae'n bwysig nodi nad yw newid mewn marc yn arwain at newid mewn gradd o reidrwydd.

- Yn TGAU, o'r adolygiadau y gwnaed cais amdanynt, ni welodd 77.5 unrhyw newid mewn gradd.
- Yn Safon UG a Safon Uwch, ni welodd 80.4 y cant o'r adolygiadau unrhyw newid mewn gradd (gweler Tabl 12 Ofqual yn nhablau data Cymru).

Cyflwyniad

Mae Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr, wedi cyhoeddi ystadegau swyddogol ar geisiadau am adolygiadau o waith a marcio ar gyfer yr holl gymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a ddyfarnwyd yng nghyfres arholiadau haf 2017.

Mae'r term 'adolygiadau o waith marcio' yn cyfeirio at y gwasanaethau a gynigir gan gyrff dyfarnu i ysgolion a cholegau yn syth ar ôl iddynt gyhoeddi canlyniadau arholiadau, sydd yn eu caniatáu i wirio p'un ai fod papurau arholiad neu dasgau gwaith cwrs wedi eu marcio'n gywir.

Fel y rheoleiddiwr arholiadau a chymwysterau yn Lloegr, mae Ofqual wedi cyhoeddi adroddiad ystadegol yn seiliedig ar y data ar gyfer arholiadau a safwyd yn Lloegr. Ar yr un dudalen we, mae Ofqual hefyd wedi cyhoeddi nodyn manwl yn rhoi cefndir i'r adroddiad. Eleni, am y tro cyntaf, mae tablau data ar gyfer arholiadau a safwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi eu cyhoeddi ar wahân.

Yn y ddogfen hon, rydym yn cynnig sylwebaeth gryno i helpu egluro'r data ar gyfer arholiadau a safwyd yng Nghymru.

Cefndir

Wrth ddehongli'r data ar gyfer Cymru, dylid nodi'r wybodaeth ganlynol ar y data a'r ystadegau:

- Mae'r data'n cwmpasu adolygu'r holl geisiadau marcio a chymedroli ar gyfer arholiadau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a safwyd yn ystod cyfres arholiadau haf 2017.

- Mae'r ffigurau'n cwmpasu cymwysterau diwygiedig, etifeddol ac anniwygiedig a gynigir gan bum corff dyfarnu mewn canolfannau (ysgolion colegau ayyb) a gaiff eu hariannu yn gyhoeddus a rhai annibynnol.
- Canolfannau sydd yn gwneud ceisiadau ar gyfer adolygiadau o waith marcio, yn hytrach nag ymgeiswyr eu hunain.
- Fel arfer, mae cymhwyster yn cynnwys mwy nag un asesiad. Gellir gwneud cais am adolygiad ar gyfer pob asesiad ac, weithiau, ar gyfer rhannau o asesiadau, a elwir yn iselfennau. Yn aml, cyflwynir adolygiadau ar gyfer nifer o asesiadau a safwyd gan ymgeisydd fel rhan o un cymhwyster.
- Os yw'r adolygiad yn canfod gwall yn y marcio gwreiddiol, bydd y corff dyfarnu yn newid y marc. Weithiau, mae hyn yn arwain at newid gradd. Mae hyn yn golygu bod nifer y graddau cymwysterau a newidir hefyd yn is na nifer y newidiadau mewn marciau.
- Mae'r data y mae Ofqual wedi ei gyhoeddi yn sôn am bob gwasanaeth adolgyu caiff eu cynnig gan gyrff dyfarnu. Yn ein sylwebaeth, rydym yn canolbwyntio ar y ffigurau ar gyfer adolygiadau o waith marcio (nad sy'n flaenoriaeth), gan mai dyna'r gwansanaeth gaiff ei ddefnyddio fwyaf aml.

Diwygio cymwysterau

Yr haf hwn, dyfarnwyd cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch a gynlluniwyd yn benodol i Gymru, am y tro cyntaf mewn nifer o bynciau. Gall bod yn llai cyfarwydd â'r cymwysterau newydd hyn fod wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhai canolfannau ynghylch p'un a ddylid gwneud cais am adolygiad o waith marcio ai peidio.

CBAC yw'r unig gorff dyfarnu sydd wedi cytuno i gynnig y cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch newydd yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd ei gyfran o gofrestriadau cymwysterau, dros amser, yn cynyddu o'i chymharu â chyfran cyrff dyfarnu eraill.

Ystadegau

Pwyntiau Allweddol

- Gwnaed 12,930 o geisiadau am adolygiadau ar gyfer asesiadau TGAU yng Nghymru, o'u cymharu ag 8,625 y llynedd, cynnydd o 49.9 y cant. Mae hyn yng nghyd-destun cynnydd o 12.3 y cant mewn cofrestriadau (gweler Tablau 3 ac 1 Ofqual).

- Gwnaed 3,020 o geisiadau am adolygiadau ar gyfer asesiadau Safon UG a Safon Uwch yng Nghymru, o'u cymharu â 3,605 y llynedd, gostyngiad o 16.2 y cant. Mae hyn yng nghyd-destun gostyngiad o 6.2 y cant mewn cofrestriadau (gweler Tablau 4 ac 1 Ofqual). Mae data ar gyfer Safon UG a Safon Uwch yn cael eu cyfuno yn y crynodeb hwn fel 'TAG'.
- Cafodd 2.5 y cant o'r holl raddau TGAU a TAG a gafodd dystysgrif eu herio a chafodd 0.5 y cant eu newid, cynnydd o 2.4 y cant a 0.4 y cant yn ôl eu trefn ar gyfer 2016 (gweler Tablau 1 a 2 Ofqual).
- Roedd cyfran yr holl dystysgrifau TGAU a TAG lle cafodd graddau eu newid rhwng 2014 a 2017 yn debyg. (gweler Tabl 2 Ofqual)
- Y graddau a gafodd eu herio fwyaf ar gyfer TGAU (A*-G) oedd D a B, 59.1 a 15.1 y cant yn ôl eu trefn (gweler Tabl 9 Ofqual).
- Nid arweiniodd 53.3 y cant o adolygiadau TGAU a TAG at unrhyw newid mewn marc. Mae'n bwysig nodi nad yw newid mewn marc yn arwain at newid mewn gradd o reidrwydd (gweler Tabl 10 Ofqual)

Cofrestriadau (Gweler Tabl 1 Ofqual)

- Yn gyffredinol, bu cynnydd o 8.4% mewn cofrestriadau TGAU a TAG yn ystod haf 2017 yng Nghymru, er bod hyn wedi'i sbarduno gan gofrestriadau TGAU.
- Cynyddodd cofrestriadau TGAU yn ystod yr haf 12.3 y cant yn 2017 o'u cymharu â 2016, yn dilyn dwy flynedd o gofrestriadau gostyngol.
- Cwympodd cofrestriadau TAG yn ystod yr haf 6.2 y cant yn 2017 o'u cymharu â 2016.

Nifer y graddau a gafodd eu herio a'u newid (Gweler Tabl 2 Ofqual)

- Mae cyfanswm y graddau TGAU a gafodd eu herio wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ers 2014 gyda chynnydd mwy o 17 y cant yn 2017. Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun cynnydd o 12.3 y cant yn nifer y cofrestriadau asesu TGAU yn 2017 (Tabl 1 a 2 Ofqual).
- Mae cyfanswm y graddau TAG a gafodd eu herio wedi cwympo yn 2016 a 2017 yng nghyd-destun cwymp yng nghyfanswm y cofrestriadau TAG. Yn 2017, y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau asesu TAG oedd 6.2 y cant, a'r gostyngiad yn y graddau a heriwyd oedd 13.5 y cant (Tabl a 2 1 Ofqual).

Ffigur A: Y graddau sydd wedi'u herio a'u newid, cyfres arholiadau'r haf, 2014 i 2017

	Blwyddyn	Graddau TGAU a gafodd eu herio	% o'r holl gymwysteraau TGAU lle cafodd graddau eu newid	Graddau TAG a gafodd eu herio	% o'r holl gymwysterau TAG lle cafodd graddau eu newid
Cyfanswm	2014	5,980	0.4	2,735	0.6
	2015	6,625	0.5	3,410	0.6
	2016	6,890	0.4	2,585	0.5
	2017	8,040	0.5	2,235	0.5

Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 2

Adolygiadau o waith marcio nad ydynt yn flaenoriaeth (Tablau 5 a 6 Ofqual)

- Adolygiadau o waith marcio nad ydynt yn flaenoriaeth ar gyfer heriau newidiadau mewn gradd oedd y rhan fwyaf (85.6 y cant) o'r adolygiadau ar gyfer pob math o wasanaeth ar gyfer asesiadau TGAU a TAG.
- Cynyddodd cyfanswm y graddau a gafodd eu herio ar gyfer TGAU drwy fath o wasanaeth nad yw'n flaenoriaeth 1,195 (neu 19.9 y cant) yn 2017 o'u cymharu â 2016 (Ffigur B).
- Gostyngodd cyfanswm y graddau ar gyfer TAG drwy fath o wasanaeth nad yw'n flaenoriaeth 380 (neu 19.2 y cant) yn 2017 o'u cymharu â 2016 (Ffigur B).

Ffigur B: Graddau TGAU a TAG a gafodd eu herio a'u newid ar gyfer adolygiadau o waith marcio nad ydynt yn flaenoriaeth yn dilyn cyfres arholiadau'r haf, 2014 i 2017 (Cymru)



Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 5 a 6

Graddau TGAU a gafodd eu herio a'u newid yn ôl pwnc (Tablau 7 ac 8 Ofqual)

- Mae nifer y ceisiadau am adolygiadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl pwnc a blwyddyn oherwydd niferoedd cofrestriadau newidiol. Mae Ffigur C yn cynnwys canran y graddau TGAU a gafodd eu herio a'u newid ar gyfer pynciau diwygiedig a phynciau â nifer fawr o gofrestriadau yng Nghymru.
- O'r rhai a gynhwysir yn y ffigur, y pwnc â'r ganran uchaf o raddau a gafodd eu herio a'u newid yn 2017 oedd Saesneg Iaith (4.4% ac 1.1% yn ôl eu trefn).

Ffigur C: Canran y graddau cymwysterau TGAU a gafodd eu herio a'u newid yn ôl pynciau diwygiedig a phynciau eraill â nifer fawr o gofrestriadau, haf 2017 (Cymru)



Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 7

Llenyddiaeth Saesneg oedd â'r gyfran uchaf o raddau TGAU a gafodd eu herio a'u newid yn 2017, sef 58.4 y cant, cynnydd o 41.3 pwynt canran o gymharu â 2016. Fodd bynnag, mae hyn yng nghyd-destun:

- Cyflwyno manyleb newydd yn 2015 yn y pwnc hwn, a dyfarnu'r cymhwyster am y tro cyntaf yr haf hwn.
- Canran y graddau a gafodd eu herio yn gostwng yn Llenyddiaeth Saesneg rhwng 2016 a 2017 (o 2.7% i 1.5%, Tabl 7 Ofqual).
- Gostyngiad sylweddol mewn cymwysterau TGAU a gafodd eu dyfarnu yn 2017 ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg, sef 13,260 neu 44.1 y cant.

Graddau TAG a gafodd eu herio a'u newid yn ôl pwnc (Tabl 8 Ofqual)

- Mae nifer y ceisiadau am adolygiadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl pwnc a blwyddyn oherwydd niferoedd cofrestriadau newidiol. Mae Ffigur D yn cynnwys canran y graddau a gafodd eu herio a'u newid ar gyfer pynciau â nifer fawr o gofrestriadau yng Nghymru.
- O'r rhai a gynhwysir yn y ffigur, y pwnc â'r ganran uchaf o raddau a gafodd eu herio yn 2017 oedd Llenyddiaeth Saesneg (6.1%) wedyn Hanes (4.3%).

- Roedd gan y ddau bwnc hyn y ganran uchaf o raddau a gafodd eu newid o blith y rhai a gafodd eu dyfarnu yn 2017 a chafodd 1.5% o raddau ar gyfer Hanes ac 1.3% ar gyfer Llenyddiaeth Saesneg.

Ffigur D: Canran y graddau cymwysterau TAG a gafodd eu herio a'u newid yn ôl y 10 pwnc cofrestru uchaf, haf 2017 (Cymru)



Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 8

Y graddau lle y cafwyd y nifer fwyaf geisiadau am adolygiadau (Tabl 9 Ofqual)

Ar gyfer TGAU, cyflwynodd canolfannau fwy o geisiadau am adolygiadau ar gyfer ymgeiswyr yr oedd eu gradd wreiddiol yn D nag unrhyw radd arall (4,700 o adolygiadau neu 59.1 y cant o'r holl raddau a gafodd eu herio). Roedd patrwm tebyg i'w weld yn 2016. Cafwyd gostyngiadau pwynt canran bach yng nghanran yr ymgeiswyr â gradd wreiddiol o A, B, C, E, F ac G yn 2017.

Ffigur E: Cyfran y graddau cymwysterau TGAU a gafodd eu herio ar gyfer A* - U, haf 2017 a 2016 (Cymru)



Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 9

Ar gyfer TAG, cyflwynodd ysgolion a cholegau nifer ychydig yn uwch o geisiadau am adolygiadau ar gyfer ymgeiswyr yr oedd eu gradd wreiddiol yn B (725 o geisiadau am adolygiadau neu 32.3 y cant o'r holl raddau a gafodd eu herio, Ffigur F), wedyn ceisiadau am adolygiadau ar gyfer ymgeiswyr yr oedd eu gradd wreiddiol yn C (610 o geisiadau am adolygiadau neu 27.2 y cant o'r holl raddau a gafodd eu herio). Eleni, cafwyd cynnydd bach yng nghyfran yr ymgeiswyr â gradd wreiddiol o A ac C tra gostyngodd cyfran yr ymgeiswyr â gradd wreiddiol o D, E ac U ychydig.

Ffigur F: Cyfran y graddau cymwysterau TAG, haf 2017 a 2016 (Cymru)

Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 9

Newidiadau i farciau crai (Tabl 10 Ofqual)

Yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer adolygiadau TGAU (52.2 y cant) ni chafwyd newid yn y marciau (Ffigur G). Arweiniodd bron tri chwarter (73.3 y cant) o'r holl adolygiadau at newid o un marc neu arhosodd y marc yr un peth, ac arweiniodd 4.0 y cant o'r adolygiadau at newid o bum marc neu fwy. Pan gafodd marciau eu newid, roeddent yn fwy tebygol o godi na gostwng, gyda 61.3 y cant o adolygiadau'n arwain at roi mwy o farciau.

Ffigur G: Maint y newidiadau i farciau TGAU ar ôl adolygiadau, cyfres arholiadau haf 2016 a 2017 (Cymru)



Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 10

Yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer adolygiadau TAG (57.9 y cant) ni chafwyd newid mewn marc. Arweiniodd 70.6 y cant, Ffigur H, o'r holl adolygiadau at newid o un marc neu lai ac arweiniodd tua 10 y cant o'r adolygiadau at newid o bum marc neu fwy. Pan gafodd marciau eu newid, roeddent yn fwy tebygol o godi na gostwng, gydag 85.6 y cant o adolygiadau'n arwain at roi mwy o farciau.

Ffigur H: Maint y newidiadau i farciau TAG ar ôl adolygiadau, cyfres arholiadau haf 2016 a 2017 (Cymru)



Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 10

Maint y graddau a gafodd eu newid ar ôl adolygiad (Tabl 12 Ofqual)

Mae Ffigur I isod yn dangos maint y newidiadau mewn gradd a wnaed ar ôl adolygiad.

- Yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer TGAU (77.5 y cant o'r graddau a gafodd eu herio), ni chafwyd newid mewn gradd ar ôl adolygiad. Pan gafodd graddau eu newid, un radd oedd y newid mwyaf cyffredin – newid o un radd oedd 99.7 y cant o'r holl newidiadau mewn gradd. Prin iawn oedd yr ymgeiswyr a gafodd newid o ddwy radd neu fwy (0.3% o'r graddau a gafodd eu newid).
- Yn y rhan fwyaf o achosion ar gyfer TAG (80.4 y cant o'r graddau a gafodd eu herio), ni chafwyd newid mewn gradd ar ôl adolygiad. Pan gafodd graddau eu newid, un radd oedd y newid mwyaf cyffredin – newid o un radd oedd 98.9 y cant o'r holl newidiadau mewn gradd. Prin iawn oedd yr ymgeiswyr a gafodd newid o ddwy radd neu fwy (1.1% o'r holl raddau a gafodd eu newid).

Ffigur I: Maint y newidiadau mewn graddau TGAU a TAG ar ôl adolygiadau, cyfres arholiadau haf 2016 a 2017 (Cymru)



Adolygiadau Ofqual o waith marcio a chymedroli ar gyfer TGAU a Safon Uwch: cyfres arholiadau haf 2017: Tabl 12